

# Cyngor Cymuned Bro Machno

www.cyngorbromachno.org

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 20 Mai 2021** am 7.30 yn Neuadd Ty'n-y-Porth

## Presennol:

Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd),  
Claire Roberts,  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies,  
Eluned McFadden,  
Eryl Owain,  
Geraint Thomas

## Hefyd:

Gareth Wyn Griffiths

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Ceri Phillips a'r Cynghorydd Sir Wyn Ellis Jones.

Cafwyd gair o groeso i'r clerc newydd o'r cyngor, sef Daniel Tomos.

**Elusen Plwyf Penmachno:** Croesawyd Gareth Wyn Griffiths, ysgrifennydd yr Elusen. Cyflwynwyd yr Adroddiad Ariannol Blyneddol ganddo. Croesawodd y cyngor y ffaith bod arian yn cael ei ddyrannu i grwpiau lleol. Cafwyd trafodaeth am ddefnyddio'r gronfa i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg tai sydd ar gael. Diolchwyd i Gareth Griffiths am ei waith.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 18fed o Fawrth 2021 fel rhai cywir, Dylan Davies yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

## Materion yn codi:

**Toiledau:** Mae'r ffi mynediad yn parhau i gyfrannu at gost rhedeg y toiledau er bod llai wedi'i dderbyn oherwydd y pandemig. Bydd Eryl Owain yn holi ymhellach am y paneli solar. Adroddwyd y gallai fod angen addasu neu adnewyddu'r ddyfais sy'n cau'r drws gan nad yw bob amser yn cau'n llawn.

## Materion ffyrdd:

**Sgwteri symudedd:** Adroddodd Eluned McFadden fod rhai preswylwyr yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'w heiddo gyda sgwter symudedd a dywedwyd wrthynt y bydd yn costio mwy na £1,000 ar gyfer adeiladu cwrw is. Awgrym i gysylltu â Chyngor ar Bopeth.

**Trwyddedau parcio** i drigolion lleol sy'n byw yma yn barhaol. Adroddodd Ceri Phillips (drwy e-bost) mae na rhai yn oedrannus, ac angen parcio yn agos i'w tai. Angen

Minutes of a meeting held on **Thursday 20 May 2021** at 7.30 at Neuadd Ty'n-y-Porth

## Present:

Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd),  
Claire Roberts,  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies,  
Eluned McFadden,  
Eryl Owain,  
Geraint Thomas

## Hefyd:

Gareth Wyn Griffiths

Apologies were received from Ceri Phillips and County Councillor Wyn Ellis Jones.

Daniel Tomos, the new council clerk, was welcomed.

**Penmachno Parish Charity:** The Chair welcomed Gareth Wyn Griffiths, charity secretary who presented the charity's annual financial report. The council welcomed the fact that funds are being allocated to local groups. There was discussion about using the fund to help tackle the lack of available housing. Gareth Griffiths was thanked for his work.

**Minutes:** The minutes of the 18 March 2021 meeting were accepted as a true record, proposed by Dylan Davies and seconded by Geraint Thomas.

## Matters arising:

**Toilets:** The entry fee continues to contribute to the cost of running the toilets though less has been received due to the pandemic. Eryl Owain is to enquire further about the solar panels. It was reported that the automatic door closer may need to be adjusted or replaced as it does not always close fully.

## Road:

**Mobility scooters:** Eluned McFadden stated that some residents are having difficulty accessing their property with a mobility scooter and have been told that it will cost more than £1,000 for the construction of a dropped kerb. Suggestion to contact Citizens Advice.

**Parking permits** for full time residents. Ceri Phillips stated (by email) there are some elderly residents who need to park close to their houses. Need to talk to

siarad â'r cyngor am y posibilrwydd o faeau anabl / bathodynnau glas.

**Carrog - diffyg arwyddion ffyrdd:** Dywedodd y Cadeirydd nad oes arwyddion ffordd yn Carrog ar gyfer Ffestiniog a Phorthmadog / Cwm Penmachno. Mae pobl yn gyrru i Gwm ac yn gofyn y ffordd i Flaenau Ffestiniog. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn iddynt osod arwydd.

**Maes parcio'r Machno:** Mae Wyn Ellis Jones wedi siarad â'r Parc Cenedlaethol ac yn aros am ymateb.

**Tŷ Mawr Wybrnant:** Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gosod Glan yr Afon, y tŷ wrth ymyl Tŷ Mawr, fel bwthyn gwyliau. Credir mai trefniant dros dro yw hwn tra bod yr ymddiriedolaeth yn penderfynu ar gynllun hirdymor ar gyfer Tŷ Mawr.

**Llwybrau:** Mae hysbyseb wedi bod yn *Yr Odyn* ond nid oes neb wedi dangos diddordeb hyd yn hyn.

**Llwybr cyhoeddus Llechwedd Hafod – Hafod Fraith:** Mae pobl wedi bod yn cwyno am gyflwr o llwybr hwn. Penderfynwyd cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod ar eu tir hwy.

**Cais am fainc:** Dywedodd Claire Roberts fod Clwb y Llan eisiau gosod mainc ger ystâd Maes-y-Waen. Penderfynwyd cysylltu â Chartrefi Conwy, sy'n berchen ar y tir.

**Ceisiadau am gymorth ariannol:** Penderfynwyd rhoi £150 i Tŷ Gobaith.

**Sgipiau Cymunedol:** Mae Eryl Owain wedi ceisio cysylltu â Chyngor Sir Conwy ond nid yw wedi derbyn ateb eto.

**Materion Ariannol:** Talwyd y biliau canlynol: Dŵr Cymru - £57.05; NPower - £15.61; Yr Urdd - £50; Neuadd Tŷ'n-y-porth - £144 cydnabyddiaeth glanhau'r toiledau; Ysgol Penmachno - £200; Dafydd Gwyndaf - £100 ad-daliad cyfraniad er cof am Elfed Williams; Gerallt Jones - £780 atgyweirio wal mynwent yr Eglwys. Cadarnhawyd bod y cwmni loriau oedd yn gyfrifol am y difrod wedi ad-dalu'r swm hwn.

**Materion Cynllunio:** Dim ond un cais cynllunio: NP4/29/44E Adlinio llifddor cynllun trydan dŵr sydd wedi ei gymeradwyo. Roedd pawb yn hapus.

the council about the possibility of disabled bays / blue badges.

**Carrog – lack of road signs:** The Chair stated that there are no road signs in Carrog for Ffestiniog and Porthmadog / Cwm Penmachno. People are driving to Cwm and asking the way to Blaenau Ffestiniog. It was decided to contact the County Council to ask them to put up a sign.

**Machno car park:** Wyn Ellis Jones has spoken to the National Park and is awaiting a response.

**Tŷ Mawr Wybrnant:** The National Trust have turned Glan yr Afon, the house next to Tŷ Mawr, into a holiday cottage. It is thought that this is a temporary arrangement whilst the trust comes up with a long-term plan for Tŷ Mawr.

**Footpaths:** There has been an advert in *The Odyn* but no one has shown interest so far.

**Public footpath Llechwedd Hafod – Hafod Fraith:** People have been complaining about a state of this path. It was resolved to contact Natural Resources Wales as it was on their land.

**Application for a bench:** Claire Roberts reported that Clwb y Llan want to install a bench near Maes-y-Waen estate. It was decided to contact Chartrefi Conwy who own the land.

**Applications for financial assistance:** It was decided to give £150 to Tŷ Gobaith.

**Community Skips:** Eryl Owain has tried to contact Conwy Council but is yet to receive a reply.

**Finance:** The following bills were paid: Welsh Water - £57.05; NPower - £15.61; The Urdd - £50; Ty'n-y-porth - £144 toilet cleaning; Penmachno School - £200; Dafydd Gwyndaf - £100 repayment for contribution in memory of Elfed Williams; Gerallt Jones - £780 repair of Church cemetery wall. It was confirmed that the lorry company responsible for the damage had repaid this amount.

**Planning:** Just one planning application: NP4/29/44E Re-routing of penstock to previously approved hydro-electric scheme. Everyone was happy with it.

**Materion eraill:**

**Cŵn yn baeddu:** Adroddwyd bod yn rhaid i gŵn fod ar dennyn o fewn y parth 20mya a bod angen arwyddion. Dywedodd Eryl Owain fod y Cyngor Sir wedi addo gosod arwydd Dim Cŵn ger mynedfa cae chwarae Penmachno ond na wnaed hynny. Penderfynwyd holi ymhellach.

**Dŵr ar y ffordd ger Park Hill:** Mae angen datrys y broblem ddraenio o hyd. Penderfynwyd cysylltu eto â'r swyddog yng Nghyngor Conwy sy'n delio â draenio.

**Cynllun Chwarae Plant yn yr haf:** Bydd yn costio £270. Mae'r cyngor yn hapus i gefnogi mewn egwyddor ond mae angen mwy o wybodaeth am yr hyn fydd yn cael ei gynnwys yn y pris.

**Pentref y Flwyddyn:** Ni fydd cystadleuaeth eleni.

**Tai Machno:** Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 10 Mai a 13 Mai i drafod y diffyg tai sydd ar gael yn yr ardal. Nid oes dim byd pendant wedi'i benderfynu ond mae Mark Gahan yn trefnu cyfarfod arall.

**Cyfrif banc:** Mae'r cyfeiriad post i'w newid i gyfeiriad y clerc: Benar, Penmachno, Betws-y-Coed LL24 OPS. Bydd Daniel Tomos yn cael ei ychwanegu fel llofnodwr.

Mae rhai sefydliadau bellach ond yn derbyn taliad drwy drosglwyddiad banc. Bydd Claire Roberts yn rhoi cyngor ar y newidiadau sydd eu hangen i'r mandad i hwyluso bancio ar-lein.

**Terfyn cyflymder Penmachno:** bydd gan ganol y pentref i gyd derfyn cyflymder o 20mya o fis Gorffennaf.

**Cyfarfod nesaf:** Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, 15fed Gorffennaf.

**Other matters:**

**Dog Fouling:** It was reported that dogs must be on a lead within the 20mph zone and that signs are needed. Eryl Owain reported that the County Council had promised to place a No Dogs sign near the entrance to Penmachno playing field but that it had not been done. It was resolved to enquire further.

**Flooding on the road near Park Hill:** the drainage issue still needs to be addressed. It was decided to contact the official at Conwy Council who deals with drainage.

**Summer activities for children (Chwarae Plant):** It will cost £270. The council is happy to support in principle but more information is needed about what will be included in the price.

**Village of the Year:** There will not be a competition this year.

**Machno Housing:** Meetings were held on 10 May and 13 May to discuss the lack of available housing in the area. Nothing definite has been decided but Mark Gahan is arranging another meeting.

**Bank account:** The postal address is to be changed to that of the clerk: Benar, Penmachno, Betws-y-Coed LL24 OPS. Daniel Tomos will be added as a signatory.

Some organisations now only accept payment by bank transfer. Claire Roberts will advise about changes needed to the mandate to facilitate online banking.

**Penmachno speed limit:** the whole of the centre of the village will have a 20mph speed limit from July.

**Next meeting:** the next meeting will be held on Thursday 15th July.